Datganiad i'r Wasg

Gwneud dewisiadau: Gwneud penderfyniadau gan ddisgyblion ysgolion cynradd

Dydd Gwener 30 Mawrth 2007

Mae adroddiad a gyhoeddwyd heddiw yn dweud bod y mwyafrif o ysgolion cynradd yn rhoi anogaeth dda i'w disgyblion gymryd rôl weithgar ym mywyd a gwaith eu hysgolion a'u cymunedau.

Mae Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant, yn adrodd bod cyfranogiad disgyblion yn ganolog i unrhyw fath o addysg. Mae cyfranogiad yn golygu annog disgyblion drwy'r ffordd y maen nhw'n dysgu i fynegi barn, cymryd cyfrifoldeb, datrys problemau, gwneud penderfyniadau, gwneud dewisiadau ac ymateb i awgrymiadau.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion cynradd wedi gwneud i'w disgyblion deimlo'u bod yn chwarae rhan drwy'r modd y mae staff yn addysgu ac yn trefnu eu gwersi. Mae disgyblion yn cyfranogi ym mhob ffordd, gan gynnwys cymryd rhan mewn addoli ar y cyd, cyngherddau, drama, systemau cyfaill, gemau tîm, gwaith elusennol a thrwy weithredu fel swyddogion neu fonitoriaid.

Mae rhai ysgolion wedi mynd gam ymhellach, gan ofyn i ddisgyblion am eu barn ar y rhinweddau y byddent yn hoffi eu gweld mewn aelod newydd o staff ac ymgorfforwyd y rhain yn y disgrifiad swydd.

"Mae ysgolion bob amser wedi chwarae rôl bwysig wrth gynnig ystod dda o brofiadau i blant a phobl ifanc er mwyn hybu cyfranogiad a gwneud penderfyniadau. Yn yr arfer fwyaf effeithiol, mae arweinyddiaeth gref yn ymgorffori cyfranogiad yn niwylliant yr ysgol. Mae cyfranogiad wedi cael ei wella o ganlyniad i'r rhwymedigaeth statudol i sefydlu cyngor ysgol," meddai Susan Lewis, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Drwy'r cyngor ysgol, mae disgyblion yn datblygu eu medrau personol a chymdeithasol ac agweddau cadarnhaol, mwy gwybodus at ddinasyddiaeth a democratiaeth. Maen nhw'n ennyn ymdeimlad o berchnogaeth a balchder yn eu hysgol, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol mewn rhai ardaloedd difreintiedig. Mewn rhai achosion, mae gwaith y cynghorau ysgolion wedi arwain at ostyngiad yn y lefelau fandaliaeth ac wedi newid y canfyddiad negatif tuag at yr ysgol a oedd yn arfer bodoli mewn rhai cymunedau.

Nodiadau i Olygyddion

- Comisiynwyd adroddiad Estyn "Cyfranogiad plant a phobl ifanc (3-11 mlwydd oed) mewn materion gwneud penderfyniadau lleol sy'n effeithio ar eu bywydau" gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae wedi'i gyhoeddi yn www.estyn.gov.uk .

- Yn 2005-6, cafodd Estyn ei gomisiynu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wneud arolwg ar y graddau yr oedd pobl ifanc rhwng 11-25 yn cael cyfleoedd i gyfranogi wrth wneud penderfyniadau am faterion a oedd yn effeithio ar eu bywydau, ac i adrodd am hyn. Eleni, fel rhan o gylch gwaith blynyddol 2006-7 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae arolygwyr Estyn wedi canolbwyntio ar yr un agwedd mewn perthynas â dysgwyr rhwng 3 ac 11 oed. Yn yr atodiad, mae'r casgliadau a gyflwynwyd yn yr adroddiad blaenorol ar bobl ifanc rhwng 11-25 oed yn cael eu diweddaru.

- Fel rhan o'r arolwg, bu arolygwyr yn ymweld â 15 o ysgolion ledled Cymru, gan gynnwys ystod lawn y ddarpariaeth drefol, wledig, cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Buont hefyd yn siarad â staff o nifer o awdurdodau addysg lleol (AALlau). Roeddent wedi cynnal cyfweliadau â phenaethiaid, athrawon dosbarth, cynorthwywyr addysgu a disgyblion. Yn ogystal, buodd yr arolygwyr yn archwilio tystiolaeth o arolygiadau ysgolion cynradd yr ymgymerwyd â nhw yn ystod blwyddyn academaidd 2005-06. Roeddent hefyd wedi archwilio tystiolaeth o arolygiadau o AALlau.

- At ddiben yr adroddiad hwn, mae "cyfranogiad" yn cael ei ddiffinio fel a ganlyn: Cyfranogiad yw hawl dysgwyr i gael cymryd rhan wrth wneud penderfyniadau neu gynllunio neu adolygu gweithred a allai effeithio arnyn nhw. Mae'n ymwneud ag annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn penderfyniadau am wasanaethau a darpariaeth sy'n effeithio ar eu bywydau ac yn fwy cyffredinol ar fywyd a gwaith eu hysgolion a'u cymunedau.

- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn amlinellu ei hymrwymiad i gyfranogiad plant a phobl ifanc yn y tair dogfen allweddol ganlynol:

    - Plant a Phobl Ifanc: Fframwaith ar gyfer Partneriaeth;

- Ymestyn Hawliau: Cynorthwyo Pobl Ifanc yng Nghymru; a

- Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau.

- Yn fwy diweddar, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi arweiniad drafft ar y Ddeddf Plant sydd hefyd yn nodi pwysigrwydd Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) sy'n pennu hawliau plant a phobl ifanc i gyfranogiad.

Am fwy o wybodaeth ac am gyfleoedd cyfweld, cysylltwch ag:

Alexandra Doel,
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata,
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464